# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd Elaine Winstanley** **Ward: Corneli**

**Plaid: Y Blaid Lafur**

Mae’r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar **30 Ebrill 2023.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

<u>**Rôl a Chyfrifoldebau**</u>

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Corneli ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi i sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi 27 ymholiad gan etholwyr yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl fel eich cynrychiolydd, rwyf wedi mynychu cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau ac rwyf wedi mynychu nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy nghynorthwyo i sicrhau bod fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a fy ward yn cael ei chynnal.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fy **rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau** drwy ddefnyddio’r ddolen hon.

<u>**Gweithgarwch yn yr Etholaeth**</u>

Yn ystod y flwyddyn, roeddwn yn falch o ymuno â Chorff Llywodraethu Afon Y Felin, a mwynheais yn arbennig ymweld â’r ysgol a sgwrsio â’r disgyblion ar ei Chyngor Ysgol a ofynnodd lawer o gwestiynau da.

Roeddwn hefyd yn gallu ymuno â disgyblion o ysgolion Corneli i blannu coed mewn dau leoliad gwahanol yng Nghorneli ar y cyd â Cymoedd i'r Arfordir a Lleoedd Lleol ar gyfer Natur - Cymru.

Yn ogystal â chyfarfod ag etholwyr sydd wedi dod ataf yn uniongyrchol, cynhaliais hefyd gymhorthfa gyda Sarah Murphy AS a’r Cynghorydd Richard Granville, lle codwyd nifer o faterion.

Mynychais gyfarfodydd PACT yn rheolaidd gan weithio gyda’r heddlu a chodi materion megis goryrru, fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

<u>**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**</u>

| |
|---|
| Fe fynychais gyfarfod ynglŷn â chludiant ysgol yng Nghorneli a rhoi adborth i'r Pwyllgor Craffu a Throsolwg ar faterion yn ymwneud â bwlio sy'n gysylltiedig â chludiant ysgol, a gymerwyd gan y swyddog priodol i fynd i'r afael â hwy.<br><br>Rwyf wedi hyrwyddo'r cyfleoedd a allai fod yn bodoli i drigolion Corneli penodol i ddefnyddio gwres cynaliadwy yn y cartref.<br><br>Gan weithio gyda'r Clerc a'r Cyngor Cymuned, rwyf wedi helpu i sicrhau gwelliannau i'r parc o amgylch Canolfan Gymunedol Corneli.<br><br>Rwyf wedi cefnogi digwyddiadau a sefydliadau lleol, mynychu eglwysi lleol a Sioe Garddwriaeth Corneli. |
| **<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**<br><br>Fel Dysgwr Cymraeg brwd rydw i wedi cefnogi digwyddiadau Cymraeg megis Noson Cawl a Chân a gynhaliwyd yng Nghorneli a mynychu Cyngerdd Nadolig Ysgol y Ferch o'r Sgêr yng Nghapel Pisgah. |
| **Y Cynghorydd Elaine Winstanley:** **Dyddiad: 15 Mehefin 2023** |